

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Uned Seiciatrig Heddfan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi

Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 12 – 14

Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth sydd nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Uned Seiciatrig Heddfan o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar noson 12 Mehefin a dyddiau canlynol 13 a 14 Mehefin 2017. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Clywedog – Ward Aciwt Iechyd Meddwl Oedolion
- Dyfrdwy – Ward Aciwt Iechyd Meddwl Oedolion
- Tryweryn – Uned Gofal Dwys Seiciatrig
- Gwanwyn – Ward Iechyd Meddwl Pobl Hŷn
- Hydref – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl a enwebwyd), ac un adolygydd lleyg. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan reolwr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (2015). Ble y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Uned Heddfan yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn llwyr gydymffurfio â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion a'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw'n fodlon iawn ar y gofal a dderbynnir
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu cymheiriaid a'r rheolwyr
- Roedd prosesau clinigol sefydledig ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion
- Roedd dogfennau cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol
- Roedd gofal unigoledig a oedd yn canolbwyntio ar y claf yn cael ei ddarparu.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r model ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl o fewn y bwrdd iechyd ddiwallu anghenion ei boblogaeth
- Dylai ardaloedd yr amgylchedd helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion
- Y broses rhagnodi, storio a chofnodi'r defnydd o feddyginiaeth
- Sicrhau bod y system ar gyfer staff cronfa yn bodloni gofynion Heddfan.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Uned Seiciatrig Heddfan yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Uned Heddfan, Ysbyty Maelor Wrecsam, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. .

Mae gan Heddfan dair ward iechyd meddwl rhyw cymysg i oedolion: Clywedog (18 gwely), Dyfrdwy (18 gwely) a Thryweryn (8 gwely). Hefyd, mae dwy ward iechyd meddwl rhyw cymysg i bobl hŷn: Gwanwyn (13 gwely) a Hydref (14 gwely).

Ar adeg yr arolygiad, roedd pob ward yn llawn.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Trwy gydol ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd. Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i gynnal urddas cleifion, ac roedd yr ystafelloedd gwely *en-suite* yn darparu preifatrwydd ychwanegol ar gyfer y cleifion.

Canfuom bwysau o ran capasiti gwelyau o fewn gwasanaeth iechyd meddwl i oedolion y bwrdd iechyd, a oedd yn golygu bod cleifion yn cysgu o bryd i'w gilydd mewn manau nad oeddent yn ystafelloedd gwely neu a oedd y tu allan i'r ardal briodol. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei ddull ofal a'i gapasiti ar gyfer cleifion mewnol er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei boblogaeth mewn modd amserol.

Cadw'n iach

Roedd amrywiaeth eang o daflenni gwybodaeth perthnasol ar gyfer cleifion, teuluoedd ac ymwelwyr eraill ar gael yn nerbynfeydd yr ysbyty ac ar y wardiau unigol. Roedd yr ardaloedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am faterion iechyd meddwl, a chanllawiau ynglŷn â deddfwriaeth iechyd meddwl a lles corfforol megis bwyta'n iach, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a all gefnogi cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Roedd gan Heddfan dîm o therapyddion galwedigaethol a chydlynwyr gweithgareddau a oedd yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau ar gyfer cleifion o fewn yr ysbyty – ac o fewn y gymuned ar gyfer y cleifion hynny a awdurdodwyd i adael yr ysbyty.

Roedd neuadd chwaraeon ar gael ar gyfer y cleifion ac roedd y tîm therapi galwedigaethol yn hwyluso gweithgareddau yno. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd dodrefn o'r ward a oedd yn aros i gael eu casglu yn cael eu storio mewn rhan o'r neuadd. Gall hyn effeithio ar sut mae'r neuadd yn cael ei defnyddio ar gyfer rhai gweithgareddau.

Roedd gampfa yn yr ysbyty hefyd; fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod rhai o'r offer ymarfer corff wedi cael eu tynnu gan nad oeddent bellach yn ddiogel i'w defnyddio. Nid oedd offer newydd wedi cael eu gosod yn lle'r rhain, a oedd yn golygu bod y gampfa yn brin o offer gyda diffyg cyfleusterau ar gyfer cleifion. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella cyfleusterau'r gampfa yn Uned Heddfan.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddodrefn sy'n aros i gael eu gwaredu yn cael eu symud yn brydlon o'r ysbyty.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella cyfleusterau'r gampfa yn Uned Heddfan.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod staff y ward ac uwch-reolwyr yr ysbyty yn rhyngweithio ac ymgysylltu'n briodol â chleifion ac yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig o ran sut roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau'r staff, ymatebwyd iddynt gydag ymagweddau caredig ac ymatebol. Clywsom y staff yn siarad â chleifion mewn tonau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn dangos parch tuag at gleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol i geisio atal ymddygiad cleifion rhag dwysáu.

Ar bob un o'r wardiau, roedd gan gleifion eu hystafelloedd gwely en-suite eu hunain, a oedd yn cynnwys toiled, sinc a chawod. Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely cleifion ac roedd yn amlwg bod cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd eu hunain. Er hynny, gwelsom ar ward Gwanwyn bod angen ailosod neu ailhongian rhai o lenni'r ystafelloedd gwely gan nad oeddent yn cynnig digon o breifatrwydd i gleifion.

Ar y wardiau iechyd meddwl i oedolion, roedd y bwrdd iechyd wedi penderfynu ailosod y drysau en-suite gyda llenni ar reiliau plygadwy. Rydym yn deall mai'r rheswm am hyn oedd lleihau'r perygl y byddai claf yn ceisio hunan-niweidio. Er bod urddas yn cael ei gynnal drwy ystafelloedd gwely unigol (sy'n hygyrch i'r claf a'r staff drwy gerdyn allwedd yn unig) a'r llenni en-suite, rydym o'r farn y gallai urddasrwydd cleifion gael ei beryglu os yw'r llen en-suite yn symud wrth i aelod o'r staff ddod i mewn i'r ystafell wely.

Cadarnhaodd uwch aelodau'r bwrdd iechyd yn ystod cyfarfod adborth ar lafar yr arolygiad fod y bwrdd iechyd yn ystyried yr opsiynau gyda'i adran ystadau. Serch hynny, esboniodd y bwrdd iechyd efallai na fyddai ateb gwell er mwyn

cynnal preifatrwydd cleifion yn cael ei ddarganfod ac mai'r flaenoriaeth fyddai sicrhau diogelwch cleifion. Yn y tymor hir, fel rhan o raglen o waith amgylcheddol, bydd mynedfa fwaog gan ddrysau'r ystafelloedd ymolchi ensuite a bydd dewisiadau mwy cadarn ar gyfer sgrinio preifat yn cael eu harchwilio yn dilyn y prawf yn Ystafell Adran 136 yr ysbyty.¹

Roedd ystafelloedd ymolchi ar gael ar bob ward y gallai'r cleifion eu defnyddio pe byddent am gael bath. Roedd cymhorthion priodol ar gael i roi cymorth ychwanegol i gleifion pe byddai angen. Fodd bynnag, roedd nwyddau ymolchi unigol y cleifion ar ward Gwanwyn yn cael eu cadw mewn loceri unigol o fewn ystafell lifddor y ward er mwyn rhwystro camddefnydd. Dywedodd y staff fod hyn yn achosi anawsterau wrth ddarparu cymorth prydlon ar gyfer hylendid personol a bod nwyddau ymolchi yn cael eu cymysgu o bryd i'w gilydd.

Roedd paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely er mwyn caniatáu i'r staff arsylwi ar gleifion heb agor y drws ac efallai amharu ar y claf. Gallai'r cleifion gau'r paneli arsylwi o'r tu mewn i'w hystafelloedd gwely. Fodd bynnag, dywedwyd bod rhai o'r paneli arsylwi ar ward Gwanwyn wedi'u gosod yn sownd ar agor ac nad oedd gan staff yr allwedd arbennig ar gyfer rhai paneli arsylwi er mwyn eu hagor a'u cau. Roedd hyn yn golygu nad oedd y staff yn gallu sicrhau bod y paneli arsylwi yn cael eu gadael ar gau er mwyn cynnal preifatrwydd cleifion rhag pobl sy'n mynd heibio drws yr ystafell wely. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gallu cadw paneli arsylwi ar gau ar draws Heddfan, a'u hagor am gyfnod digonol i gynnal arsylwadau.

Yn ôl ein harolygiad blaenorol yn 2015, roedd y wardiau i oedolion – Clywedog, Dyfrdwy a Thryweryn – yn cynnwys gorsafoedd nyrsio agored ar y wardiau. Roedd hyn yn effeithio ar allu'r staff i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol, boed hynny ar bapur, ar gyfrifiadur, yn ystod sgysiau dros y ffôn, neu'n uniongyrchol â'r unigolyn. Fodd bynnag, gwnaethom arsylwi ar y staff trwy gydol yr arolygiad yn diogelu gwybodaeth gyfrinachol trwy ei chloi i ffwrdd pe byddai'n ofynnol iddynt adael yr orsaf nyrsio, trwy fod yn ymwybodol o leoliad pobl eraill wrth gael sgysiau neu gymryd galwadau, a thrwy gael sgysiau mewn ystafelloedd preifat pe bai angen.

¹ Mae Ystafell Adran 136 yn fan diogel penodedig lle gall yr heddlu fynd ag unigolyn er mwyn cynnal asesiad Deddf Iechyd Meddwl.

Roedd byrddau cipolwg ar statws cleifion yn cael eu harddangos ar wardiau'r oedolion o fewn y gorsafoedd nyrsio. Er bod ymdrechion wedi cael eu gwneud i godio gwybodaeth gyfrinachol (i atal cleifion rhag darllen gwybodaeth gyfrinachol am gleifion eraill), roedd yna bosibilrwydd y gallai cleifion ddehongli gwybodaeth gyfrinachol am gleifion eraill.

Roedd Ystafell Adran 136 ar Uned Heddfan lle y gallai'r heddlu fynd â phobl er mwyn cynnal asesiad y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd yr Ystafell Adran 136 wedi'i dodrefnu'n addas i gynnig cysur a diogelwch ar gyfer unigolyn a oedd yn aros ac yn cael ei asesu. Roedd toiled ar gael o fewn yr Ystafell Adran 136; er hynny, nid oedd unrhyw ddrws na sgrin o fewn mynedfa'r toiled i gynnig preifatrwydd i unigolyn a oedd yn defnyddio'r cyfleuster.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl lenni yn Heddfan yn cael eu hongian yn briodol er mwyn cynnig preifatrwydd i gleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau storio hygyrch a phriodol ar gyfer nwyddau ymolchi cleifion ar ward Gwanwyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gallu cadw paneli arsylwi ar gau ar draws Heddfan, a'u hagor am gyfnod digonol i gynnal arsylwadau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gorsafoedd nyrsys agored ar wardiau Clywedog, Dyfrdwy a Thryweryn er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ofynnol yn gallu cael ei chadw'n gyfrinachol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesur preifatrwydd priodol ar gyfer y toiled a leolir yn yr Ystafell Adran 136.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd digonedd o wybodaeth berthnasol ar gael i gleifion, teuluoedd, ac ymwelwyr eraill. Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael ar bob un o'r wardiau ac o fewn derbynfeydd Heddfan. Roedd yr wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion iechyd meddwl a gwybodaeth o'r trydydd sector.

Mewn cyfarfodydd unigol, roedd cleifion yn gallu cael cymorth ac arweiniad gan gyrrff allanol, fel cyfreithwyr neu wasanaeth eiriolaeth. Roedd teuluoedd a gofalwyr y cleifion hefyd yn cyfrannu at rai cyfarfodydd unigol.

Roedd y fenter "Hoffech chi Siarad" yn cael ei gweithredu ar gyfer teuluoedd a gofalwyr er mwyn cynnig mewnbwn sylweddol o ran gofal eu perthnasau.

Roedd y bwrdd iechyd hefyd wedi cynnig gweithdy Mapio Gofal Dementia i berthnasau a gofawyr cleifion i'w hysbysu ynglŷn ag athroniaeth y gofal a ddarperir i gleifion ar ward Gwanwyn.

Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol. Roedd y staff yn treulio amser i drafod gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Lle'r oedd cleifion yn aneglur neu wedi camddeall o hyd, byddai staff yn esbonio'r hyn roeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

Roedd nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys y cleifion a'r staff ac roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol ar gyfer cynllunio gofal unigol a chyfarfodydd grŵp cymunedol.

Mewn cyfarfodydd unigol, roedd cleifion yn gallu cael cymorth ac arweiniad gan gyrrff allanol, fel cyfreithwyr neu wasanaeth eiriolaeth. Roedd teuluoedd a gofawyr y cleifion hefyd yn bresennol yn ystod rhai cyfarfodydd unigol. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom fynychu Sesiwn Mapio Dementia gyda pherthnasau cleifion, a oedd yn cynnig gwybodaeth am ofal cleifion i'r rhai oedd yn bresennol.

Gofal amserol

Yn ystod ein harolygiad, roedd pob un o'r pum ward yn gwbl lawn. Gwnaeth y staff gadarnhau bod hyn yn ddigwyddiad rheolaidd a bod hyn yn wir ar gyfer wardiau iechyd meddwl eraill o fewn y bwrdd iechyd. Ar draws y bwrdd iechyd, roedd y cyfraddau llenwi yn cael eu monitro gan uwch-reolwyr yn feunyddiol.

Oherwydd y cyfraddau llenwi gwelyau, roedd adegau pan oedd cleifion o Betsi Cadwaladr yn cael derbyn i ward o fewn y bwrdd iechyd a oedd yn cynnwys gwely rhydd yn lle'r ward o fewn ysbyty iechyd meddwl lleol y claf. Lle nad oedd digon o welyau o fewn y bwrdd iechyd, byddai'r gwasanaeth yn dod o hyd i wely ysbyty o fewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru, ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr, neu ddarparwr annibynnol i ddiwallu anghenion y boblogaeth o ran y gwasanaeth. Roedd unrhyw "leoliadau y tu allan i'r ardal" yn cael eu monitro bob dydd gan uwch-reolwyr er mwyn hwyluso ymdrechion i ddychwelyd y claf i'w ysbyty lleol cyn gynted â phosibl.

Pan nad oedd gwelyau ar gael (yn enwedig yn ystod y noswaith neu'r nos), byddai cleifion yn cael eu derbyn i'r wardiau ac roedd y claf yn cael llety dros nos mewn mannau cymunol y ward a oedd yn cael eu gwneud yn breifat at ddefnydd unigol yr unigolyn hwnnw. Er bod angen caniatâd i weithredu'r

mesurau hyn gan y rheolwr ar alwad, nid yw'n addas i gleifion gael llety dros dro y tu allan i ystafell wely ddynodedig.

Yn ogystal, roedd yr Ystafell Adran 136 yn cael ei defnyddio llawer yn Heddfan; gwnaeth hyn gynyddu'r galw ar wasanaeth iechyd meddwl y bwrdd iechyd oherwydd asesiadau heb eu trefnu yn Heddfan. Byddai'n ofynnol i staff Heddfan hwyluso'r asesiad iechyd meddwl o fewn yr Ystafell Adran 136. Mewn achosion pan oedd yr unigolyn yn cael ei asesu o fod ag angen cael ei dderbyn i'r ysbyty, roedd yn ofynnol i staff Heddfan aros gyda'r claf yn yr Ystafell Adran 136 nes yr oedd gwely ar gael yn Heddfan neu ysbyty arall.

Oherwydd y cyfraddau llenwi ar y wardiau iechyd meddwl, yn ystod yr arolygiad roedd claf yn bresennol yn yr Ystafell Adran 136 am bron i 24 awr nes bod gwely addas ar gael, a oedd yn dibynnu ar glaf arall yn Heddfan yn cael ei drosglwyddo i'w ysbyty iechyd meddwl lleol o fewn y bwrdd iechyd.

Gwnaeth y cyfraddau llenwi a'r galw ar gapasiti y gwasanaeth iechyd meddwl achosi oedi o ran cleifion yn cael mynediad at ofal amserol o fewn eu hysbyty iechyd meddwl lleol.

Roedd yn gadarnhaol clywed bod y bwrdd iechyd wedi bod yn gweithio gyda'r heddlu lleol i sicrhau mai dim ond unigolion priodol fyddai'n dod i'r Ystafell Adran 136 i'w hasesu. Yn ystod yr arolygiad, rhoddodd y staff enghreifftiau o adegau pan oedd unigolion wedi dod i'r Ystafell Adran 136 y gallent fod wedi cael eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill mwy priodol. Fodd bynnag, gwnaeth y bwrdd iechyd arddangos gweithio ar y cyd gyda'r heddlu er mwyn dysgu o brofiadau'r gorffennol i ddarparu gwasanaeth gwell ar gyfer y bobl.

Pan oedd unigolion o dan 18 mlwydd oed yn dod y tu allan i oriau i'r Ystafell Adran 136 yn Heddfan, roedd trefniadau ar waith gyda'r meddygon yn Heddfan ac Ysbyty Maelor Wrecsam i gynnal asesiadau o ganlyniad i'r ffaith nad oedd meddygon Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar gael y tu allan i oriau. Er bod hyn yn darparu asesiad o'r unigolyn, efallai na fyddai'r meddyg a oedd yn cynnal yr asesiad yn brofiadol ym maes gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r Glasoed o'i gymharu â meddyg o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Gall hyn effeithio ar amseroldeb unigolyn o dan 18 mlwydd oed yn derbyn y lefel briodol o ofal sydd ei hangen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu faint o welyau a'r ddarpariaeth gwasanaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion er mwyn sicrhau ei fod yn gallu diwallu anghenion ei boblogaeth mewn da bryd.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau o ran asesiadau iechyd meddwl y tu allan i oriau ar gyfer pobl o dan 18 mlwydd oed.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu rwystro cleifion rhag gadael yr ysbyty drwy'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gallai'r cleifion hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol, a oedd yn anfon cynrychiolydd i'r ysbyty bob wythnos. Gallai'r cleifion gael mynediad hefyd at y gwasanaeth Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Roedd manau addas i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat ar y ddwy ward, ynghyd â threfniadau ar waith i wneud galwadau ffôn preifat. Roedd ystafell i ymwelwyr, a oedd yn addas i blant sy'n ymweld, wedi'i lleoli ar bwys wardiau Clywedog a Dyfrdwy ar gyfer y wardiau oedolion a gerllaw ward Hydref ar gyfer y wardiau pobl hŷn. Er hynny, gallai'r ystafell i ymwelwyr ar y wardiau pobl hŷn gael ei gwneud yn fwy addas i blant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwneud gwelliannau i wneud yr ystafell i ymwelwyr ar y wardiau pobl hŷn yn fwy croesawgar i blant.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd cyfle i gleifion, perthnasau a gofalwyr roi adborth o ran y gofal a ddarperir drwy broses Gweithio i Wella y GIG.² Roedd yn gadarnhaol gweld cardiau "Diolch" yn cael eu harddangos gan gleifion ac aelodau teulu blaenorol.

² Gweithio i Wella yw'r prosesau integredig ar gyfer codi, ymchwilio a dysgu o bryderon mewn perthynas â thriniaeth o fewn y GIG.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y staff yn Heddfan yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd prosesau da ar waith i gynnal diogelwch cleifion wrth dderbyn gofal o ansawdd uchel ar y wardiau. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau o ran rhagnodi, storio a chofnodi meddyginiaeth a ddefnyddir yn Heddfan.

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu atal cleifion rhag gadael yr ysbyty drwy'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli risg a chynnal iechyd a diogelwch yn Uned Heddfan. Roedd pedwar o'r wardiau wedi'u lleoli ar y llawr daear, gyda ward Hydref ar lawr cyntaf yr ysbyty. Roedd lifft ar gael i'r llawr cyntaf, a oedd yn sicrhau mynediad hygrych i bob rhan o'r ysbyty.

Roedd pwyntiau galw am nyrs o gwmpas y ward ac o fewn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion allu galw am gymorth pe bai angen. Roedd y wardiau pobl hŷn, Gwanwyn a Hydref, yn cynnwys synwryddion ystafelloedd gwely a oedd yn rhybuddio staff am gleifion a oedd yn codi o'u gwelyau er mwyn i'r staff allu cynnig y lefel ofynnol o gymorth i gleifion. Er hynny, dywedodd rhai o'r staff y bu adegau pan nad oedd y larymau wedi canu yn ôl yr angen. Dywedodd y staff hefyd y gellir clywed larwm drwy'r holl ward pan oedd yn canu, a gall hynny amharu ar gleifion eraill, yn enwedig yn ystod y nos. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu system synwrydd yr ystafelloedd gwely er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl yr angen, ac yn rhybuddio'r staff heb amharu ar gleifion.

Roedd systemau sefydledig ar waith ar gyfer asesu a monitro lefelau cynnwrf cleifion ac roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant cydnabyddedig ar dechnegau

ymyriad corfforol cyfyngol i reoli ymddygiad cleifion. Er hynny, dywedodd rhai o'r aelodau staff ar rai adegau nad oedd yr holl staff banc sydd wedi gweithio ar y wardiau wedi derbyn hyfforddiant ymyriad corfforol cyfyngol ac nad oeddent yn gallu cynorthwyo'r staff fel y byddai ei angen. Gallai hyn effeithio ar allu staff y ward i gynnal diogelwch y ward.

Roedd gan y staff yn Heddfan fynediad at larymau personol i alw am gymorth pe bai angen. Roedd y staff o'r farn y gallai'r system larwm gael ei gwella gan fod y system bresennol ond yn rhybuddio'r sawl sy'n dal y blipiwr ar y ward ynglŷn â ble mae'r digwyddiad yn digwydd.

Oherwydd y cyfraddau llenwi uchel ar draws Heddfan, nid oedd y staff yn gallu trosglwyddo cleifion bob amser i Dryweryn, sef yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig yn Heddfan, er mwyn galluogi'r claf i dderbyn gofal nyrsio dwysedd uwch gyda symbyliad is. Cadarnhaodd y staff y byddent yn defnyddio manau o'r wardiau a oedd yn symbyliad is er mwyn rheoli ymddygiad cleifion os nad oedd yr Uned Gofal Dwys Seiciatrig ar gael neu'n ddiangen.

Roedd asesiadau risg pwyntiau clymu cyfredol ar waith ar gyfer y ddwy ward. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau a gymerwyd er mwyn gwaredu ar neu reoli'r rhain.

Roedd y dodrefn, y gosodion a'r ffitiadau ar y ddwy ward, ar y cyfan, yn fwy priodol ar gyfer y grwpiau cleifion priodol nag yn ystod ein harolygiad diwethaf yn 2015. Er hynny, gellid gwella rhai o'r dodrefn cymunedol ar wardiau Gwanwyn a Hydref i roi mwy o gysur i gleifion. Dywedodd y staff hefyd y byddai'r wardiau pobl hŷn yn elwa ar welyau proffilio uchel-isel ychwanegol i gynorthwyo wrth gynnal diogelwch y cleifion sydd â llai o sefydlogrwydd a symudedd.

Roedd gan bob ward ei gardd ei hun y gallai cleifion fynd iddi. Roedd yn amlwg ar noson gyntaf ein harolygiad nad oedd y golau yng ngerddi wardiau Clywedog a Dyfrdwy yn ddigonol i ganiatáu i'r staff weld yr ardd yn glir. Er bod y golau yn llawer gwell yng ngardd ward Tryweryn, ac er ei fod yn cael ei reoli gan synwryddion, dywedodd y staff fod y golau yn troi ymlaen ac yn diffodd yn achlysurol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gerddi yn cael eu goleuo'n briodol pan fo angen.

Dywedodd y staff ar wardiau Gwanwyn a Hydref fod peryglon baglu o fewn eu gerddi a oedd yn peri risg i ddiogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod adran ystadau'r bwrdd iechyd wedi cael ei hysbysu am y rhain ond nad oedd unrhyw ddyddiad cwblhau wedi cael ei gyhoeddi a bod y gwaith trwsio yn dal i fod heb ei gwblhau.

Yn ystod cyfarfod adborth yr arolygiad, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr y byddai gwelliannau i'r gerddi yn cael eu blaenoriaethu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu systemau synhwyrdd yr ystafelloedd gwely er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl yr angen, ac yn rhybuddio'r staff heb amharu ar gleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hyfforddiant ymyriad corfforol cyfyngol yr holl staff sy'n gweithio yn Heddfan (gan gynnwys staff banc) yn gyfredol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwelyau priodol (gan gynnwys gwelyau proffilio uchel-isel) i gynorthwyo wrth gynnal diogelwch y cleifion sydd â llai o sefydlogrwydd neu symudedd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gerddi yn cael eu goleuo'n briodol pan fo angen.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gerddi yn rhydd rhag peryglon baglu.

Atal a rheoli heintiau

Trwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod yr ysbyty'n lân yn ôl pob golwg ac yn rhydd rhag annibendod. Roedd offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol.

Roedd nwyddau hylendid dwylo ar gael yn y manau priodol ar y ddwy ward; roedd arwyddion priodol i gyd-fynd â'r rhain. Roedd gan y staff fynediad hefyd at gyfarpar atal a rheoli heintiau a dadheintio (cyfarpar diogelu personol) pan oedd ei angen.

Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gyfer y wardiau a oedd yn cael eu cynnal yn dda a chanfuom fod yr ystafelloedd golchi dillad a'r cypyrddau lliainiau yn drefnus iawn.

Roedd amserlenni glanhau yn cael eu cynnal gan staff cadw tŷ y bwrdd iechyd ar draws Heddfan. Dywedodd staff y ward eu bod yn gwneud glanhau ychwanegol mewn ardaloedd clinigol; fodd bynnag, pan wnaethom adolygu rota/rhestr wirio'r staff clinigol ar ward Gwanwyn, gwelsom hepgoriadau. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cwblhau ac yn cofnodi glanhau systematig mewn manau clinigol.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gwneud modiwlau e-ddysgu ynglŷn ag atal a rheoli heintiau; er hynny, roeddent o'r farn nad oeddent yn cynnwys digon o

wybodaeth o ran arferion clinigol ac amserlenni glanhau. O ystyried yr hepgoriadau a nodwyd ar ward Gwanwyn, dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r modiwl e-ddysgu atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig digon o hyfforddiant i'r holl staff mewn perthynas â'u swyddogaethau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau ac yn cofnodi glanhau systematig mewn mannau clinigol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y modiwl e-ddysgu ar atal a rheoli heintiau yn cynnig digon o hyfforddiant i'r holl staff mewn perthynas â'u swyddogaethau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom ganfod anghysondebau o ran rheoli meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol ar draws Heddfan.

Roedd gan bob ward ei droli meddyginiaeth ei hunain gyda droriau unigol ar glo ar gyfer pob claf. Roedd pob troli meddyginiaeth yn ddiogel o fewn yr ystafelloedd clinigol; er hynny, gadawyd nifer o ddroriau unigol y cleifion heb eu cloi pan wnaethom wirio ystafelloedd clinigol Clywedog a Thryweryn. Fodd bynnag, canfuom nad oedd yr holl gypyrddau meddyginiaeth na'r oergelloedd meddyginiaeth yn Heddfan yn cael eu cadw dan glo pan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y nyrsys cofrestredig yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel yn Heddfan er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Er bod tymhereddau oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu nodi a'u cofnodi bob dydd ar y rhan fwyaf o'r wardiau, nid oedd hyn yn wir ar ward Clywedog, lle'r oedd hepgoriadau aml o ran cofnodi tymheredd yr oergell feddyginiaeth. Mae hyn yn golygu na all y bwrdd iechyd fod yn sicr bod meddyginiaeth yn ward Clywedog yn cael ei storio bob amser ar y tymheredd a argymhellir gan y gwneuthurwr. Hefyd, roedd eitemau o fewn oergell feddyginiaeth ward Clywedog na ddylent fod wedi'u storio ynddi, gan gynnwys meddyginiaeth nad oedd angen ei storio mewn amgylchedd oer a diodydd carbonedig.

Roedd y siartiau Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth a adolygwyd gennym yn cynnwys enw llawn y claf unigol; fodd bynnag, roedd rhai siartiau Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth a oedd yn nodi'r enw llawn ar y tu blaen yn unig. Wedi hynny, dim ond enw cyntaf y claf oedd yn cael ei nodi o fewn y siart Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth.

Wrth inni adolygu rhai o'r siartiau Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth, gwnaethom nodi nad oedd y rhagnodwr wedi nodi'r ffordd o roi yn glir ar gyfer rhai meddyginiaethau; roedd y rhagnodwr wedi nodi bod y feddyginiaeth wedi cael ei rhoi drwy'r geg neu'n fewngyhyrol, ac nid drwy un ffordd benodol.

Pan oedd meddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi'n rheolaidd neu yn ôl yr angen, nid oedd uchafswm y dos beunyddiol wedi cael ei nodi ar adegau, a oedd yn golygu y gallai uchafswm y dos beunyddiol fod yn uwch na chyfyngiad y dos beunyddiol a noder gan Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain.³

Ar ward Tryweryn, roedd un set o nodiadau yn dangos tystiolaeth o'r defnydd o amlgyffuriaeth, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod meddyginiaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, a'r gofyniad o ran y feddyginiaeth a ragnodwyd.

Roedd diffyg monitro hefyd o ran defnyddio clopixonol-acuphase⁴ (gyda meddyginiaeth gwrthseicotig arall) a gwaith monitro corfforol cysylltiedig o'r claf.

Roedd siartiau Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth gyda hepgoriadau o ran cofnodi gweinyddiaeth neu pan oedd meddyginiaeth wedi cael ei gwrthod gan y claf. Hefyd, roedd adegau pan nad oedd y defnydd o gyffuriau a reolir wedi cael ei lofnodi gan ddau o'r staff cofrestredig ar wardiau Clywedog, Dyfrdwy a Thryweryn.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys cofrestredig yn cofnodi meddyginiaeth a roddir yn gywir a'r defnydd o gyffuriau a reolir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymereddau yr oergell feddyginiaeth yn cael eu nodi a'u cofnodi.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod oergelloedd meddyginiaeth dim ond yn cynnwys meddyginiaethau y mae angen eu cadw yn yr oergell.

³ Mae Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain yn llyfr cyfeirio ynglŷn â rhagnodi, dosbarthu a gweinyddu meddyginiaeth, a fwriedir yn bennaf i'w ddefnyddio gan glinigwyr.

⁴ Mae clopixonol-acuphase yn gyffur gwrthseicotig a weinyddir drwy bigiad mewngyhyrol.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhagnodwyr yn nodi'r ffordd o roi benodol ar gyfer meddyginiaethau.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhagnodwyr yn nodi uchafswm dos beunyddiol meddyginiaeth.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion o adolygiadau meddyginiaeth yn cael eu cynnal o fewn nodiadau cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y monitro corfforol gofynnol yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion ar ôl defnyddio clopixon-acuphase.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys cofrestredig yn cofnodi meddyginiaeth a roddir yn gywir.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys cofrestredig yn cofnodi'r defnydd o gyffuriau a reolir yn gywir.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn Heddfan yn diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau at asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, canfuom drefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff ar y ddwy ward yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion. Er hynny, fel y nodwyd uchod, mae angen gwneud gwelliannau o ran rheoli meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol yn Heddfan.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion cleifion yn ffeiliau papur yn bennaf, a oedd yn cael eu storio a'u cadw o fewn swyddfa dan glo'r nyrs, gydag ychydig o ddogfennau electronig, a oedd wedi'u diogelu gan gyfrinair. Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Oherwydd y gorsafoedd nyrsio agored ar wardiau Clywedog, Dyfrdwy a Thryweryn, gwnaethom godi ein pryderon o ran cynnal gwybodaeth a chofnodion yn gyfrinachol o fewn yr ardaloedd hyn ar y wardiau. Roedd y staff yn gallu rhoi sicrwydd o ran eu harferion a oedd yn cynorthwyo wrth gynnal

cyfrinachedd. Fodd bynnag, dywedodd rhai staff fod y gorsafoedd nyrsio agored yn ei gwneud hi'n anoddach i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol, yn enwedig os oes arnynt angen ymateb i ddiwyddiad ar y ward.

Ar y cyfan, nodwyd bod cofnodion cleifion yn fwy trefnus ar wardiau Clywedog, Dyfrdwy a Thryweryn, ond roedd cofnodion cleifion yn anoddach i'w hadolygu ar wardiau Gwanwyn a Hydref.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn fwy trefnus ar wardiau Gwanwyn a Hydref.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol pump o'r cleifion ar draws dwy ward, a oedd yn cynnwys wardiau Clywedog a Hydref.

Roedd yn amlwg bod yr achosion o gadw wedi cael eu cymhwysu a'u hadnewyddu yn ôl gofynion y Ddeddf.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei darparu i gleifion yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, Cydsyniad i Driniaeth. Lle gofynnwyd am Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, roedd cofnod o drafodaeth yr ymgynghoreion statudol yn cael ei lenwi a'i gadw gyda dogfennau'r Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn.

Roedd copïau o dystysgrifau cydsynio i driniaeth wedi'u cadw gyda siart Cofnod Rhoi Meddyginiaethau pob claf. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi o dan ddarpariaethau caniatâd Adran 58 o'r Ddeddf.

Roedd cleifion yn derbyn eu hawliau statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys apelio yn erbyn eu cadw. Roedd tystiolaeth bod rhai o'r cleifion yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth eiriolaeth.

Gwnaethom nodi hefyd bod pob achos o absenoldeb trwy ganiatâd wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal pump o gleifion. Roedd tystiolaeth bod y cydlynwyr gofal wedi cael eu dewis ar gyfer y cleifion a, lle bo'n briodol, bod aelodau teulu yn rhan o'r trefniadau cynllunio gofal. Fodd bynnag, o ran un claf

ar ward Dyfrdwy, roedd y cydlynnydd gofal wedi gadael ei swydd ac nid oedd cydlynnydd gofal newydd wedi cael ei gofnodi ar y Cynllun Gofal a Thriniaeth mwyaf diweddar.

Roedd dogfennau gofal y cleifion yn dangos amrywiaeth o asesiadau risg a oedd yn amlinellu'r risgiau canfyddedig a sut i'w rhwystro a'u rheoli. Yn ogystal, roedd asesiadau iechyd a monitro corfforol yn cael eu cofnodi mewn rhai o nodiadau'r cleifion. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys bob amser yn y Cynllun Gofal a Thriniaeth diweddaraf o fewn ffeiliau'r cleifion ac roedd yn cael ei hepgor yn aml o fewn Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wardiau Clywedog a Dyfrdwy. Roedd y wybodaeth hon wedi cael ei chofnodi ar ddogfennau adolygu'r Cynlluniau Gofal a Thriniaeth, ond nid ar y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. Felly nid oedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth a gadwyd ar rai ffeiliau cleifion yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf o ran sut i ofalu a chefnogi'r claf.

Gwnaethom adolygu nodiadau ar wardiau Clywedog a Dyfrdwy a oedd wedi nodi y dylai pwysau gael eu monitro'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd nodiadau'r cleifion bob amser yn dangos bod hyn wedi cael ei wneud, na'r rheswm dros beidio â gwneud, e.e. gwrthododd y claf neu nid oedd angen monitro pwysau mwyach.

Roedd yn thema gyffredin nad oedd staff yn cofnodi unrhyw anghenion cleifion nad oeddent yn cael eu diwallu tra oeddent yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Mae'n bwysig bod anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi er mwyn iddynt gael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm amlddisgyblaeth er mwyn edrych ar opsiynau ar gyfer diwallu'r anghenion hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cydlynnydd gofal yn cael ei gofnodi yn y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau pan fo'r angen i fonitro pwysau yn cael ei nodi bod hyn yn cael ei wneud a'i gofnodi o fewn nodiadau cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Ble roedd angen, roedd staff yn Heddfan yn cyfeirio at yr awdurdod lleol i gymhwyso'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer cleifion cymwys. Roedd yn amlwg bod y broses yn cael ei chymhwyso'n briodol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd arweinyddiaeth a rheolaeth dda ar draws Heddfan, gyda thimau ward a oedd yn arddangos gwaith tîm da ac yn siarad yn gadarnhaol o ran morâl y staff. Roedd y timau ward yn cael eu cefnogi gan uwch-reolwyr hyfyw yn y bwrdd iechyd.

Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal cleifion o safonau uchel, a thrwy gydol yr arolygiad, roeddent yn agored i'n safbwyntiau, canfyddiadau, ac argymhellion.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod systemau a phrosesau clir iawn ar waith er mwyn sicrhau bod wardiau Heddfan yn canolbwyntio ar wella eu gwasanaethau'n barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, drwy raglen archwilio dreigl a'i strwythur llywodraethu sefydlog, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/a enwebwyd i gwrdd yn rheolaidd i drafod y canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion.

Roedd arweinyddiaeth ymrwymedig a brwdfrydig gan y metronau modern a'r rheolwyr ward. Roedd rheolwyr y wardiau yn cael eu cefnogi gan dimau ward ymroddedig, timau amlddisgyblaethol cryf, ac uwch-reolwyr y bwrdd iechyd a oedd yn mynychu Heddfan yn rheolaidd. Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r gefnogaeth a roddwyd gan y metronau modern a rheolwyr y ward yn Heddfan. Dywedodd y staff hefyd fod gwaith tîm a morâl y staff ar y wardiau yn dda ac wedi gwella llawer ers ein harolygiad diwethaf.

Roedd adborth cleifion a pherthnasau yn gadarnhaol o ran y gofal a roddwyd yn Heddfan.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn Heddfan yn barod i wrando ar ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Roedd gan Heddfan dimau ward wedi eu sefydlu a oedd yn arddangos gwaith tîm da ac unigolion a oedd yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal pwrpasol i gleifion. Roedd swyddi nyrsys cofrestredig gwag yn Heddfan, ond dangosodd yr uwch-reolwyr yr ymdrechion a oedd yn cael eu gwneud i lenwi'r rhain. Roedd cyfraddau salwch staff Heddfan yn cael eu monitro gan uwch-reolwyr a rhoddwyd tystiolaeth i ni fod y cyfraddau salwch yn isel.

Roedd yn gadarnhaol clywed ers ein harolygiad diwethaf yn 2015 bod y bwrdd iechyd wedi penodi staff cadw tŷ ar wardiau Clywedog, Dyfrdwy a Thryweryn i gyflawni swyddogaethau anghlinigol a oedd yn cael eu cwblhau gan y tîm nyrsio. Mae hyn wedi caniatáu i'r tîm nyrsio ganolbwyntio mwy ar gynnig mewnbwn nyrsio i gleifion.

Gwnaethom adolygu'r hyfforddiant staff; roedd yn amlwg bod hyn yn cael ei monitro gan reolwyr y ward a'r uwch-reolwyr. Bu gwelliannau mawr o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol ers ein harolygiad diwethaf. Fodd bynnag, ar draws Heddfan, roedd angen gwella cyfraddau cwblhau hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau – Lefel 2. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, dywedodd y staff nad oedd yr hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gawsant yn ddigonol i gefnogi'r holl staff o ran eu swyddogaethau unigol.

Roedd y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol ac roedd y dyddiadau cwblhau yn cael eu cofnodi ar y system cofnod staff electronig. Roedd hyn yn cadarnhau'r cyfraddau uchel o ran cwblhau arfarniadau ar draws Heddfan. Roedd y staff yn Heddfan hefyd yn derbyn sesiynau goruchwyliaeth yn rheolaidd; cadwyd y rhain ar gofnodion papur yn unig, a oedd yn golygu ei fod yn anoddach i fonitro'r cyfraddau cwblhau. Gwnaeth y staff a'r rheolwyr ar draws Heddfan gadarnhau bod sesiynau goruchwyliaeth yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gan y staff. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod hyn yn digwydd yn llai aml ar ward Tryweryn. Roedd hyn oherwydd mai dim ond un dirprwy reolwr ward oedd yn cefnogi'r rheolwr ward ac felly roedd yn anoddach sicrhau bod yr holl staff yn derbyn sesiynau goruchwyllo yn rheolaidd.

Pan nad oedd y rotâu staff yn gallu cael eu llenwi gan y timau ward yn Heddfan, roedd diffygion yn y sifft yn cael eu cyfeirio at system cronfa staff y bwrdd iechyd. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd y staff yn Heddfan o'r farn ar adegau nad oedd y staff cronfa bob amser yn gymwys i weithio ar

wardiau Heddfan, gan nad oeddent yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y grwpiau cleifion. Cadarnhaodd y staff fod proses i roi adborth ar addasrwydd staff banc yn dilyn sifft, a oedd yn hysbysu'r system cronfa staff am unrhyw sifftiau banc yn y dyfodol. Dywedodd y staff hefyd y bu rhai achlysuron pan nad oedd y system cronfa staff wedi gallu llenwi'r diffyg yn y rotâu, ac felly nid oedd digon o staff ar gyfer y sifft.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn derbyn sesiynau goruchwyliaeth yn rheolaidd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r system cronfa staff i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Heddfan.

4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon sydd angen sylw ar unwaith mewn perthynas â diogelwch cleifion, lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG fel arfer yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#) a [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Bodloni'r [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill, fel y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Seiciatrig Heddfan

Wardiau: Clywedog, Dyfrdwy, Tryweryn, Gwanwyn a Hydref

Dyddiad yr arolygiad: 12 – 14 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Seiciatrig Heddfan

Ward/uned(au): Clywedog, Dyfrdwy, Tryweryn, Gwanwyn a Hydref

Dyddiad yr arolygiad: 12 – 14 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl ddodrefn sy'n aros i gael eu gwaredu yn cael eu symud yn brydlon o'r ysbyty.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	Mae rhai eitemau wedi cael eu symud ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, mae eitemau ychwanegol sydd bellach angen eu symud, a rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Gwesty'r Dwyrain sicrwydd inni y byddant yn cael eu symud ar 2 Awst 2017.	Nyrs Arweiniol – Dwyrain	2 Awst 2017
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella cyfleusterau'r gampfa yn Uned Heddfan.	1.1 Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	Mae arfarniad o'r opsiynau ar gyfer cyfarpar ymarfer corff wedi cael ei ddatblygu gan Therapydd Galwedigaethol yr uned. Mae arian wedi cael ei nodi i brynu ychydig o	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion	30 Medi 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gyfarpar. Mae angen archebu cyfarpar a datblygu proses ymsefydlu gan ystyried materion iechyd a diogelwch posibl.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl lenni yn Heddfan yn cael eu hongian yn gywir ac yn cynnig preifatrwydd i gleifion.	4.1 Gofal ag urddas	Mae'r metronau wedi sicrhau bod yr holl lenni wedi'u gosod. Nodwyd y pedair llen oedd ar goll ac fe'u harchebwyd gyda thraciau. Nid yw'r ystafelloedd hyn yn wynebu'r cyhoedd. Bydd gwiriad wythnosol yn cael ei ychwanegu at amserlen y gweithwyr cadw tŷ i sicrhau monitro parhaus.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion a Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	11 Awst 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau storio hygyrch a phriodol ar gyfer nwyddau ymolchi'r cleifion ar ward Gwanwyn.	4.1 Gofal ag urddas	Fel rhan o'r gwaith amgylcheddol, bydd y cypyrddau dillad yn cael eu haddasu i gynnwys blwch storio y gellir ei gloi ar gyfer storio unigol cleifion. Yn y cyfamser, bydd blychau storio unigol yn cael eu cadw ar y ward er mwyn storio eitemau.	Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	31 Mawrth 2018
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gallu cadw paneli arsylwi ar gau ledled Heddfan, a'u hagor am gyfnod digonol i gynnal arsylwadau.	4.1 Gofal ag urddas	Atgoffwyd y staff i sicrhau bod yr holl baneli arsylwi yn cael eu cadw ar gau ac ond yn cael eu hagor ar gyfer	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion a Metron – Iechyd Meddwl	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		arsylwadau.	Pobl Hŷn	
		Mae allweddi ar gael i agor a chau'r paneli arsylwi. Yn y tymor hir, fel rhan o'r gwaith amgylcheddol, mae drws pob ystafell wely yn cael ei ddisodli gyda drws newydd. Bydd botwm ar gyfer y panel arsylwi y gall cleifion ei ddefnyddio yn cael ei osod ar bob drws.	Nyrs Arweiniol – Dwyrain	31 Mawrth 2018
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gorsafoedd nyrsio agored ar wardiau Clywedog, Dyfrdwy a Thryweryn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ofynnol yn gallu cael ei chadw'n gyfrinachol.	4.1 Gofal ag urddas	Mae'r staff wedi cael eu hysbysu i sicrhau bod y cypyrddau y gellir eu cloi, sydd ar gael y tu ôl i'r gorsafoedd nyrsio ar y wardiau iechyd meddwl i oedolion (Clywedog a Dyfrdwy), yn cael eu defnyddio. Bydd y byrddau Cypolwg ar Statws Cleifion yn cael eu hadolygu a naill ai eu symud neu'u disodli gyda byrddau sydd â drysau plygadwy.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion	4 Awst 2017
		Ar ward Tryweryn, gan fod yr orsaf nyrsys yn gwbl agored ac yn hygyrch o'r ddwy ochr, mae gwaith yn cael ei gynllunio fel rhan o'r prosiect amgylcheddol i amgáu'r orsaf nyrsio, a fydd yn gwella'r gallu i gynnal	Nyrs Arweiniol – Dwyrain	31 Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cyfrinachedd.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesur preifatrwydd priodol ar gyfer y toiled a leolir yn yr Ystafell Adran 136.	4.1 Gofal ag urddas	Gan mai diogelwch yw'r flaenoriaeth er mwyn lleihau'r risgiau yn yr ardal hon, mae'r drysau en-suite wedi cael eu symud. Roedd urddas wedi cael ei gynnal trwy lenni ar reilen blygadwy, ond roedd hyn yn anaddas gan fod y rhain wedi cael eu tynnu i lawr gan gleifion ar ddau achlysur. Mae prototeip o sgrîn breifatrwydd fwy cadarn wedi cael ei archebu, a disgwylir y danfoniad.	Nyrs Arweiniol – Dwyrain	31 Awst 2017
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu faint o welyau a'r ddarpariaeth gwasanaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion er mwyn sicrhau ei fod yn gallu diwallu anghenion ei boblogaeth mewn da bryd.	5.1 Mynediad amserol	Mae'r bwrdd iechyd yn cymryd rhan yn y gwaith meincnodi cenedlaethol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd y Cyfarwyddwr Meddygol yn adolygu canlyniadau data meincnodi 2017 ar gyfer darpariaeth cleifion mewnol, gan ystyried p'un a yw capasiti aciwt ar gyfer oedolion yn ddigonol.	Cyfarwyddwr Meddygol	30 Tachwedd 2017
		Byddai ail-lansio'r bwrdd partneriaeth yn creu timau gweithredu lleol i ystyried	Rheolwr Rhwydwaith	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		dewisiadau eraill o ran derbyn ac ymatebion priodol i argyfyngau.	Clinigol Dwyrain	–
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau o ran asesiadau iechyd meddwl y tu allan i oriau ar gyfer pobl o dan 18 mlwydd oed.	5.1 Mynediad amserol	<p>Mae cydweithwyr gwasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed yn arwain ar ddatblygiadau pellach gan weithio gyda phartneriaid i ystyried dewisiadau eraill o ran derbyn pobl o dan 16 mlwydd oed.</p> <p>Mae gwasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed yn rhedeg gwasanaeth saith diwrnod ar hyn o bryd, sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hasesu naill ai ar ddiwrnod eu derbyn neu'r diwrnod canlynol gan ymarferydd gwasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed.</p> <p>Mae seiciatryddion gwasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed yn rhedeg rota ar alwad ar gyfer y gwasanaeth ffôn 24 awr.</p> <p>Mae paediatregwyr aciwt yn cefnogi'r gofal a ddarperir i bobl ifanc o dan 16 oed a dderbynnir i'r Ystafell Adran 136.</p>	Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol Plant	31 Ionawr 2018 –

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Sefydlwyd ffrwd waith i adolygu'r llwybrau a'r modelau darparu ar gyfer pobl ifanc mewn argyfwng sy'n dod i Ystafelloedd Adran 136, wardiau pediatrig ac adrannau brys, gyda'r bwriad o ailfodelu a datblygu darpariaeth gwasanaeth fwy ymatebol mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, gwasanaethau pediatreg, a gwasanaethau iechyd meddwl a'r glasoed.		
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwneud gwelliannau i wneud yr ystafell i ymwelwyr ar y wardiau pobl hŷn yn fwy croesawgar i blant.	6.2 Hawliau pobl	Gellir defnyddio'r ystafell i deuluoedd sy'n ymweld ar y ward iechyd meddwl oedolion hefyd. Mae ymgynghorydd nyrso yn adolygu'r ardal ar y ward iechyd meddwl pobl hŷn, a bydd yn ystyried unrhyw arweiniad perthnasol a allai gynorthwyo i wella'r ardal hon.	Nyrs Ymgynghorol – Dementia	31 Awst 2017
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu systemau synhwyrdd yr ystafelloedd gwely er mwyn	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo	Gan fod diogelwch yn flaenoriaeth, mae angen rhybuddio'r staff drwy'r holl ward	Nyrs Arweiniol – Dwyrain	31 Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl yr angen ac yn rhybuddio'r staff heb amharu ar gleifion.	iechyd a diogelwch	ynghylch larymau sy'n canu er mwyn caniatáu iddynt ymateb mewn da bryd. Mae'r system yn cael ei hadolygu fel rhan o'r gwaith amgylcheddol er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio fel y dylai. Cwblhawyd arolwg gan y gwneuthurwr. Mae safle'r synhwyrdd a'r math yn cael eu newid wrth i bob ystafell wely'n cael ei huwchraddio.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hyfforddiant ymyriad corfforol cyfyngol yr holl staff sy'n gweithio yn Heddfan (gan gynnwys staff banc) yn gyfredol.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	<p>Mae cydymffurfiaeth bresennol o ran hyfforddiant ymyriad corfforol cyfyngol ar gyfer ardaloedd cleifion mewnol fel a ganlyn: Iechyd Meddwl Pobl Hŷn – 85%, Iechyd Meddwl Oedolion – 91%.</p> <p>Mae unrhyw aelod o'r staff banc sy'n cyflawni gwaith rheolaidd yn Heddfan yn cael ei gefnogi i fynychu hyfforddiant ymyriad corfforol cyfyngol. Mae'r metronau yn cysylltu â rheolwr y nyrsys cronfa a'r tîm hyfforddiant ymyriad corfforol cyfyngol ynghylch sesiynau ychwanegol i alluogi rhagor o staff banc i ymgymryd â'r hyfforddiant.</p>	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	31 Awst 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Canfod pa ganran o'r staff banc sy'n cydymffurfio, ar y lleiaf, â hyfforddiant gorfodol, Trais ac Ymddygiad Ymosodol, Modiwl B.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwelyau priodol (gan gynnwys gwelyau proffilio uchel-isel) ar y wardiau iechyd meddwl pobl hŷn i gynorthwyo wrth gynnal diogelwch y cleifion sydd â llai o sefydlogrwydd a symudedd.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae ond dau o welyau proffilio ar y ddwy ward, ac mae hyn yn cynnwys y pum gwely uchel-isel a'r ddau gwely tra isel. Mae hyn wedi cael ei adolygu a phenderfynwyd bod saith gwely sy'n symud i'r llawr o fewn yr uned, sef 25% o gyfanswm y gwelyau, yn ddigonol ar hyn o bryd i ddiwallu'r galw ar gyfer y math hwn o wely.	Rheolwr Gwasanaethau – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gerddi yn cael eu goleuo'n briodol pan fo angen.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Fel rhan o'r rhaglen waith amgylcheddol, gosodwyd goleuadau newydd ar ward Tryweryn, a bwriedir gwneud hyn yng ngerddi Clywedog a Dyfrdwy hefyd.	Nyrs Arweiniol – Dwyrain	31 Awst 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gerddi ar y wardiau iechyd meddwl pobl hŷn yn rhydd rhag peryglon baglu.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Gwnaethpwyd ychydig o waith adfer er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r peryglon baglu. Fodd bynnag, nid oedd yn llwyddiannus ac mae'r peryglon baglu yn dal i fod yno. Fel rhan o'r rhaglen waith amgylcheddol, bydd rhan o'r lloeriau sydd	Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	15 Medi 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		wedi'i difrodi yn cael ei hailosod. Yn y cyfamser, mae mainc wedi cael ei gosod ar draws y peryglon baglu i rwystro mynediad at y peryglon.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cwblhau ac yn cofnodi glanhau systematig mewn mannau clinigol.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae'r metronau wedi cyfathrebu â'r tîm atal a rheoli heintiau a dadheintio yn Wrecsam ac wedi addasu eu hamserlen glanhau ar gyfer nyrsys. Rhoddwyd hyn ar waith yn Heddfan ar 1 Gorffennaf 2017 a bydd yn cael ei monitro gan y metronau.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y modiwl e-ddysgu ar atal a rheoli heintiau yn cynnig digon o hyfforddiant i'r holl staff mewn perthynas â'u swyddogaethau.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae'r canrannau cyfredol o ran cydymffurfiaeth atal a rheoli heintiau fel a ganlyn: Lefel 1: Iechyd Meddwl Pobl Hŷn – 90%, Iechyd Meddwl Oedolion – 92% Lefel 2: Iechyd Meddwl Pobl Hŷn – 60%, Iechyd Meddwl Oedolion – 60% Bydd cydymffurfiaeth yn parhau i gael ei monitro drwy'r Cyfarfod Gweithrediadau wythnosol, gyda'r nod o gael cydymffurfiaeth Lefel 2 at 90%.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	31 Rhagfyr 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Adborth i grŵp datblygu hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd i adolygu'r hyfforddiant.	Nyrs Glinigol Arbenigol – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	30 Medi 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tymerddau yr oergell feddyginiaeth yn cael eu nodi a'u cofnodi.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae'r staff wedi cael eu hysbysu ar lafar a chydag nodyn atgoffa gweledol. Bydd y metronau yn monitro drwy wiriadau misol.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod oergelloedd meddyginiaeth dim ond yn cynnwys meddyginiaethau sydd angen eu cadw mewn oergell.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae'r staff wedi cael eu hysbysu ar lafar a chydag nodyn atgoffa gweledol. Bydd y metronau yn monitro drwy wiriadau misol ac maent wedi cadarnhau nad oes unrhyw eitemau amhriodol yn yr oergelloedd ar hyn o bryd.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd ac yn barhaus
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhagnodwyr yn nodi'r ffordd o roi benodol ar gyfer meddyginiaeth.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Bydd hyfforddiant sefydlu'r meddyg dan hyfforddiant yn cael ei addasu i gynnwys sesiwn hyfforddiant gan y fferyllfa ynglŷn â rhagnodi.	Cyfarwyddwr Clinigol – Dwyrain	31 Rhagfyr 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd archwiliad yn cael ei ddatblygu i fonitro safonau mewn perthynas â rhagnodi gan nad yw'n cael ei fonitro gan unrhyw un o'r archwiliadau sydd ar waith ar hyn o bryd. Dylai'r archwiliad sylfaenol gael ei gwblhau ym mis Awst 2017 a'i ailadrodd yn chwarterol wedyn.	Cyfarwyddwr Clinigol Dwyrain –	31 Awst 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhagnodwyr yn nodi uchafswm dos beunyddiol meddyginiaeth.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Bydd hyfforddiant sefydlu'r meddyg dan hyfforddiant yn cael ei addasu i gynnwys sesiwn hyfforddiant gan y fferyllfa ynglŷn â rhagnodi.	Cyfarwyddwr Clinigol Dwyrain –	31 Rhagfyr 2017
		Bydd archwiliad yn cael ei ddatblygu i fonitro safonau mewn perthynas â rhagnodi gan nad yw'n cael ei fonitro gan unrhyw un o'r archwiliadau sydd ar waith ar hyn o bryd. Dylai'r archwiliad sylfaenol gael ei gwblhau ym mis Awst 2017 a'i ailadrodd yn chwarterol wedyn.	Cyfarwyddwr Clinigol Dwyrain –	31 Awst 2017
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion o adolygiadau meddyginiaeth yn cael eu cadw yn	2.6 Rheoli meddyginiaeth	Bydd y Cyfarwyddwr Clinigol yn atgoffa'r holl staff meddygol ynglŷn â'r angen i sicrhau bod adolygiadau meddyginiaeth	Cyfarwyddwr Clinigol –	4 Awst 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
nodiadau'r cleifion.	au	yn cael eu cofnodi bob wythnos (o leiaf). Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy'r archwiliadau.	Dwyrain	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y monitro corfforol gofynnol yn cael ei nodi yn nodiadau'r cleifion ar ôl defnyddio clopixon-acuphase.	2.6 Rheoli meddyginiaeth au	Roedd hwn mewn perthynas â chlaf penodol – roedd tystiolaeth bod cleifion eraill yn cael monitro corfforol yn rheolaidd. Erbyn hyn, mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant Tawelu Cyflym gan ymgynghorydd y ward a fferyllydd ar 30 Mehefin 2017. Bydd y sesiwn hon yn cael ei hailadrodd ar sail barhaus.	Rheolwr y Ward – Tryweryn	Cwblhawyd
		Bydd gwiriadau misol gan y metronau yn monitro'r safonau o ran monitro iechyd corfforol, yn ogystal ag archwiliadau ansawdd a diogelwch misol.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Yn parhau
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys cofrestredig yn cofnodi'r feddyginiaeth a roddir yn gywir.	2.6 Rheoli meddyginiaeth au	Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa ynglŷn â phwysigrwydd gwirio'r siartiau cyffuriau yn ogystal â chwblhau'r gwiriad dyddiol o gyffuriau a reolir ar lafar a thrwy nodyn atgoffa gweledol.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae archwiliadau o gyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn fisol gan y fferyllfa i fonitro hyn.	Prif Fferyllydd Iechyd Meddwl – Dwyrain	Cwblhawyd ac yn barhaus
		Archwiliad sylfaenol i'w gynnal ar gyfer yr holl siartiau cyffuriau cleifion i ganfod lefel o sicrwydd ynghylch y safonau o ran rheoli meddyginiaethau, nad yw'n cael ei gynnwys fel rhan o'r archwiliadau fferyllfa misol.	Rheolwr Gwasanaethau – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	31 Awst 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nyrsys cofrestredig yn cofnodi'r defnydd o gyffuriau a reolir yn gywir.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa ynglŷn â phwysigrwydd gwirio'r siartiau cyffuriau yn ogystal â chwblhau'r gwiriad dyddiol o gyffuriau a reolir ar lafar a thrwy nodyn atgoffa gweledol.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd
		Mae archwiliadau o gyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn fisol gan y fferyllfa i fonitro hyn.	Prif Fferyllydd Iechyd Meddwl – Dwyrain	Cwblhawyd ac yn barhaus
		Archwiliad sylfaenol i'w gynnal ar gyfer yr holl siartiau cyffuriau cleifion i ganfod lefel o sicrwydd ynghylch y safonau o ran rheoli meddyginiaethau, nad yw'n	Rheolwr Gwasanaethau – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	31 Awst 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cael ei gynnwys fel rhan o'r archwiliadau fferyllfa misol.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion ar wardiau Gwanwyn a Hydref wedi'u trefnu'n well.	3.5 Cadw cofnodion	Mae fformat y cytunwyd arno ar gyfer cofnodion meddyginiaeth o fewn yr is-adran. Bydd clercod wardiau yn cynorthwyo i sicrhau bod y fformat hwn yn cael ei ddilyn. Mae clercod wardiau wedi cael eu penodi ac yn aros am ddyddiadau dechrau, a byddant yn cefnogi'r ddwy ward iechyd meddwl pobl hŷn gyda'r gwaith o wella trefn y cofnodion. Mae gan un ddyddiad dechrau a gadarnhawyd ar gyfer 1 Awst 2017 ac mae dyddiad dechrau dros dro gan y llall ar 1 Medi 2017.	Rheolwr Gwasanaethau – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	30 Medi 2017
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cydlynnydd gofal yn cael ei nodi yn y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Mae nodiadau atgoffa brys wedi cael eu rhoi i'r staff o ran pwysigrwydd sicrhau bod cydlynwyr gofal yn cael eu cofnodi ar y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd
		Bydd archwiliad sylfaenol ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn Ardal Ddwyreiniol Cleifion Mewnol i edrych yn fanylach ar	Rheolwr Gwasanaethau – Iechyd Meddwl	15 Medi 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ansawdd a chynnwys y dogfennau hyn.	Oedolion Nyrs Arweiniol – Dwyrain	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau pan fo'r angen i fonitro pwysau yn cael ei nodi bod hyn yn cael ei wneud a'i gofnodi o fewn nodiadau cleifion.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Mae sesiynau pwysu wedi cael eu cyflwyno ar y wardiau iechyd meddwl oedolion fel rhan o wella'r gwaith o fonitro iechyd corfforol, a gwneir hyn eisoes ar y ward iechyd meddwl pobl hŷn. Caiff hyn ei fonitro gan y metronau.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd ac yn barhaus
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi yn eu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Mae nodiadau atgoffa brys wedi cael eu rhoi i'r staff er mwyn sicrhau bod anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu yn cael eu cofnodi yn y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth.	Metron – Iechyd Meddwl Oedolion Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd
		Bydd archwiliad sylfaenol ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn Ardal Ddwyreiniol Cleifion Mewnol i edrych yn fanylach ar ansawdd a chynnwys y dogfennau hyn.	Rheolwr Gwasanaethau – Dwyrain Iechyd Meddwl Oedolion Nyrs Arweiniol – Dwyrain	15 Medi 2017

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn derbyn sesiynau goruchwyllo yn rheolaidd.	7.1 Gweithlu	Roedd hyn yn fater penodol ar ward Tryweryn yn ystod yr arolygiad sydd wedi cael ei ddatrys yn ddiweddarach. Mae gan bob ward system ar waith i sicrhau bod sesiynau goruchwyllo yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Bydd perfformiad o ran hyn yn cael ei fonitro drwy gyfarfod wythnosol Gweithrediadau'r Ardal Ddwyreiniol.	Rheolwr Rhwydwaith Clinigol – Dwyrain Nyrs Arweiniol – Dwyrain	Yn parhau
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r system staff cronfa i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Heddfan.	7.1 Gweithlu	Mae unrhyw bryderon sylweddol o ran staff banc yn cael eu codi ar unwaith gyda'r rheolwr nyrsys banc. Bydd staff banc yn derbyn sesiwn sefydlu y tro cyntaf maent yn gweithio yn yr uned – mae hyn ar waith ar hyn o bryd.	Iechyd Meddwl Metron – Iechyd Meddwl Pobl Hŷn	Cwblhawyd
		Mae sifftiau yn mynd i asiantaeth os na ellir dod o hyd i staff banc. Bydd yr opsiwn o fanc iechyd meddwl penodol yn cael ei archwilio gyda'r rheolwr nyrsys banc.	Nyrs arweiniol – Dwyrain	30 Medi 2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Rebekah Roshan

Swydd: Nyrs Arweiniol

Dyddiad: 27 Gorffennaf 2017